# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

At: Aelodau'r Cyngor Sir

Dyddiad: 28 Tachwedd 2016

Rhif Union: 01824706141

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 6 RHAGFYR 2016** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD** (Tudalennau 5 - 6)

Nodi ymrwymiadau dinesig a ymgymerwyd gan Gadeirydd y Cyngor (copi ynghlwm).

**5 COFNODION** (Tudalennau 7 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd 18 Hydref 2016 (copi ynghlwm).

**6 PWYLLGOR LLYWIO CYMRAEG** (Tudalennau 13 - 30)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) i'r Cyngor fabwysiadu Grŵp Llywio Cymraeg ffurfiol o fewn Cyfansoddiad y Cyngor.

**7 RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwydnodd y Cynghorydd Arwel Roberts y rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried gan y Cyngor llawn.

"Tynnwyd fy sylw at y ffaith fod dronau'n hedfan o gwmpas Rhuddlan a'r Rhyl yn gyson ar hyn o bryd. Mae technoleg yn beth bendigedig ond mae'n debyg bod y peiriannau hedfan hyn yn hofran o amgylch tai a gerddi pobl. Mae'r gyfraith yn nodi na ddylid eu hedfan dros ardaloedd adeiledig nac o fewn 50 medr o bobl nad oes gennych reolaeth drostynt.

Gellir prynu'r dronau hyn yn weddol rhad gyda chamerâu arnynt, maent yn fforddiadwy ac felly'n hygyrch i unrhyw un.

Rwy'n credu eu bod wedi eu gwahardd ym Mharciau Brenhinol Llundain a dylid cael parth gwahardd dros holl barciau a thraethau Sir Ddinbych.

Gallai trip i'r parc lleol olygu rhai rhieni blin iawn ac ni fyddai trigolion am weld pobl yn gyrru'r dronau rheoli o bell hyn dros eu heiddo.

Dylid gwahardd y dronau yma o holl ardaloedd cyhoeddus Sir Ddinbych."

**8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR** (Tudalennau 31 - 34)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (copi ynghlwm).

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Ann Davies (Cadeirydd) | Y Cynghorydd Win Mullen-James (Is-Gadeirydd) |
| Raymond Bartley | Jason McLellan |
| Brian Blakeley | Barry Mellor |
| Joan Butterfield | Bob Murray |
| Jeanette Chamberlain-Jones | Dewi Owens |
| Bill Cowie | Merfyn Parry |
| Meirick Davies | Paul Penlington |
| Stuart Davies | Pete Prendergast |
| Peter Duffy | Arwel Roberts |
| Peter Arnold Evans | Anton Sampson |
| Hugh Evans | Gareth Sandilands |
| Bobby Feeley | David Simmons |
| Carys Guy | Barbara Smith |
| Huw Hilditch-Roberts | David Smith |
| Martyn Holland | Bill Tasker |

Colin Hughes
Rhys Hughes
Hugh Irving
Alan James
Alice Jones
Huw Jones
Pat Jones
Gwyneth Kensler
Geraint Lloyd-Williams
Julian Thompson-Hill
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
David Williams
Eryl Williams
Huw Williams
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Digwyddiadau wedi eu mynychu gan y Cadeirydd / Events attended by Chairman**

| Dyddiad/Date | Digwyddiad/Event | Lleoliad/Location |
|---|---|---|
| 01/10/16 | Gŵyl Gerdd Rhyngwladol Gogledd Cymru<br>North Wales International Music Festival | Llanelwy / St Asaph |
| 02/10/16 | Cyngerdd Superkids<br>Superkids Concert | Yr Wyddgrug / Mold |
| 04/10/16 | Sioe arbennig disgyblion Ysgol Cefn Meiriadog o 'Matilda' gan Roald Dahl<br>Special School Showing by pupils of Ysgol Cefn Meiriadog of Roald Dahl's 'Matilda' | Cefn Meiriadogi |
| 05/10/16 | Ymweliad I Grwp Tai Pennaf/Pennaf Housing Group Visit | Y Rhyl / Rhyl |
| 05/10/16 | Agoriad o'r Ganolfan Ymchwil a Bugeiliol, Ysgol Brynhyfryd<br>Opening of the new Research Centre and Pastoral Centre at Ysgol Brynyfryd<br>(Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice-Chairman attended) | Rhuthun / Ruthin |
| 06/10/16 | Lansio Cynllun 5 Mlynedd Hosbis a Chanolfan Gofal Sant Cyndeyrn<br>Launch of St. Kentigern Hospice and Palliative Care Centre 5 Year Plan | Llanelwy / St. Asaph |
| 07/10/16 | Gwobrau Eich Pencampwyr 2016<br>Your Champions Awards 2016 | Llandudno |
| 07/10/16 | Dawns Giniawa Elusennol y Maer Wrecsam<br>Mayor of Wrexham's Charity Dinner Dance<br>(Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice-Chairman attended) | Wrecsam/ Wrexham |
| 13/10/16 | Ymweliad Cyngor Ysgol Gynradd i Neuadd y Sir<br>Primary School Council Visit to County Hall | Rhuthun / Ruthin |
| 16/10/16 | Gwasanaeth Dinesig Maer Towyn<br>Mayor of Towyn's Civic Service<br>(Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice-Chairman attended) | Towyn |
| 17/10/16 | Agoriad Swyddogol Parc Coffa ac Amlosgfa Sir Ddinbych<br>Official Opening of Denbighshire Memorial Park and Crematorium | Llanelwy / St. Asaph |
| 21/10/16 | Agoriad Swyddogol adeilad newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd y Rhyl ac Ysgol Tir Morfa<br>Official opening of new building for Rhyl High School and Ysgol Tir Morfa | Y Rhyl / Rhyl |

| | | |
|---|---|---|
| 27/10/16 | Digwyddiad Cyntaf Cyngor Ieuenctid Newydd<br>First New Youth Council Event | Dinbych / Denbigh |
| 03/11/16 | Gwobrau Chwaraeon Cymunedol Sir Ddinbych<br>Denbighshire Community Sports Awards | Llangollen |
| 04/11/16 | Agor Pafiliwn Newydd yn Rhewl<br>Opening of New Pavilion in Rhewl | Rhewl |
| 06/11/16 | Gwasanaeth Dinesig Maer Caerwys<br>Mayor of Caerwys' Civic Service<br>(Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice-Chairman attended) | Caerwys |
| 07/11/16 | Seremoni torri'r dywarchen yng Nglasdir<br>Turf Cutting Ceremony at Glasdir | Rhuthun / Ruthin |
| 09/11/16 | Ymweliad Cyngor Ysgol Gynradd i Neuadd y Sir<br>Primary School Council Visit to County Hall | Rhuthun / Ruthin |
| 10/11/16 | Seremoni Ddinasyddiaeth<br>Citizenship Ceremony | Rhuthun / Ruthin |
| 12/11/16 | Dawns Fasgiau Elusennol Maer Rhuddlan<br>Rhuddlan Mayor's Masquerade Ball | Rhuddlan |
| 16/11/16 | Cyfarfod blynyddol gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned<br>Annual meeting with City, Town and Community Councils<br>Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice-Chairman attended) | Rhuthun / Ruthin |
| 18/11/16 | Lansio Archwilio eich Archifau yng Nghymru<br>Wales Launch of Explore Your Archive | Rhuthun / Ruthin |
| 24/11/16 | Dathlu 150 o flynyddoedd o Journal y Rhyl<br>Celebrating 150 years of the Journal, Rhyl | Y Rhyl / Rhyl |
| 24/11/16 | Cyngerdd Awyr Las - Côr Ieuenctid Sir Ddinbych<br>Cyngerdd Awyr Las Concert - Denbighshire Youth Choir | Y Rhyl / Rhyl |
| 25/11/16 | Diwrnod Hawliau Gofalwyr NEWCIS<br>NEWCIS Carers Rights Day | Llanelwy / St. Asaph |

**CYNGOR SIR**

Cofnodion cyfarfod o’r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mawrth, 18 Hydref 2016 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Raymond Bartley, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Bill Cowie, Ann Davies (Cadeirydd), Stuart Davies, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Hugh Irving, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Jason McLellan, Win Mullen-James (Is-Gadeirydd), Dewi Owens, Merfyn Parry, Paul Penlington, Arwel Roberts, Anton Sampson, Gareth Sandilands, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, David Williams, Eryl Williams, Huw Williams a/ac Mark Young

**HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr (MM), Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Pennaeth Gwella a Moderneiddio Busnes (AS), Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (VR) a’r Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

**1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Meirick Davies, Carys Guy, Rhys Hughes, Alice Jones, Huw Jones, Barry Mellor, Bob Murray, Pete Prendergast, David Simmons a/ac Cheryl Williams

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Cyngor Llawn ac estynnodd groeso i Charlotte Owen o Swyddfa Archwilio Cymru hefyd, a oedd yn y cyfarfod fel arsylwr.

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni ddatganwyd cysylltiad.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Dim materion brys.

**4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD**

Dosbarthwyd rhestr o ymrwymiadau dinesig y bu'r Cadeirydd a’r Is-gadeirydd ynghlwm â nhw rhwng 30.06.2016 a 30.09.2016 cyn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y rhestr o ymrwymiadau dinesig y bu’r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ynghlwm â nhw.*

**5 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2016.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2016 fel cofnod cywir.*

**6 ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i'r Aelodau gymeradwyo fersiwn drafft o Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2015/16, yn amodol ar newidiadau y cytunwyd arnynt, er mwyn iddo gael ei gyfieithu a'i gyhoeddi cyn 31 Hydref 2016.

Roedd yr adroddiad drafft yn cynnwys crynodeb o gynnydd pob blaenoriaeth gorfforaethol, gan danlinellu llwyddiannau neu heriau allweddol a wynebwyd yn ystod y flwyddyn. Roedd hefyd yn crynhoi perfformiad prosiectau corfforaethol, risgiau corfforaethol, dangosyddion cymaradwy (Dangosyddion Strategol Cenedlaethol), Mesurau Atebolrwydd Perfformiad a chanfyddiadau allweddol gan reoleiddwyr allanol. Yn ychwanegol at hynny, roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gryno ynglŷn â gwaith a wnaed mewn perthynas ag amrywiaeth a chydraddoldeb a Safonau'r Iaith Gymraeg, yn ogystal â gweithgarwch gyda phartneriaid a thrwy gydweithio.

Eglurodd y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio bod Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2012-17 wedi gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y Cyngor a'i flaenoriaethau dros y cyfnod o bum mlynedd. Nodwyd manylion ynglŷn â bwriad y Cyngor i gyflawni'r blaenoriaethau yn y cynlluniau gwasanaeth blynyddol ac yn nogfen Darpariaeth Flynyddol y Cynllun Corfforaethol.

Datblygwyd yr adroddiad drafft gan y Tîm Cynllunio Strategol, wrth ymgynghori â gwasanaethau eraill y Cyngor. Darparwyd y wybodaeth ynglŷn â pherfformiad a oedd wedi'i chynnwys yn y ddogfen gan y gwasanaethau, ac fe'i cafwyd o system rheoli perfformiad Verto. Ymgynghorwyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo.

Wrth drafod, codwyd y materion canlynol:

- Ymateb gwael i Arolwg y Preswylwyr. Derbyniwyd tua 750 o ymatebion, a oedd yn llai na 1% o boblogaeth y sir. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno yn y Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2017, er mwyn ystyried sut i fynd i'r afael â hyn.
- Tai Fforddiadwy – cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio i ddod ag eiddo gwag i mewn i'r farchnad dai, a phrynu hen dai cyngor yn eu holau. Roedd y Cyngor ar flwyddyn gyntaf cynllun strategaeth dai 5 mlynedd o hyd. Yn rhan o'r strategaeth dai, bu'r Cyngor mewn cyfarfodydd rheolaidd â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Nid oedd unrhyw gynlluniau ar gyfer datblygiad maint llawn o dai cyngor newydd. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Briffio'r Cyngor yn y Flwyddyn Newydd.

- Roedd Band Eang BT yn parhau'n broblem. Roedd Aelodau’n ymwybodol bod Band Eang BT wedi’i drafod yn y pwyllgor Archwilio’n ddiweddar. Roedd BT wedi darparu rhestr o leoliadau ‘Dim cysylltiad' ond roedd yr Aelodau'n pryderu y byddai busnesau'n symud o ardaloedd lle nad oedd band eang cyflym iawn ar gael. Gofynnwyd i BT am ddiweddariad ar gynnydd gwaith gosod band eang cyflym iawn.
- Cefnogaeth i fusnesau – codwyd mater cyfathrebu â busnesau lleol gan nad oedd hysbysiadau roedd y Cyngor yn eu gyrru â gwybodaeth am ddigwyddiadau lleol yn cyrraedd pob busnes. Cafwyd eglurhad bod angen i fusnesau gofrestru â’r Cyngor i dderbyn gwybodaeth. Anogwyd Aelodau i siarad â busnesau a'u hannog nhw i gofrestru.
- Codwyd y Rhyl fel blaenoriaeth adfywio. Roedd y cyllid a ddaeth ar gael ar gyfer adfywio’n dod gan Lywodraeth Cymru a'r sector preifat.
- Gallai cleifion Iechyd Meddwl a oedd angen triniaeth breswyl, ar achlysuron, gael eu cludo mor bell â Glasgow gan fod diffyg gwlâu yn Sir Ddinbych. Roedd yn broblem genedlaethol ac roedd y Byrddau Iechyd ynghyd â’r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio’n hynod o galed i ddatrys y broblem hon. Cadarnhawyd hefyd y byddai adroddiad i’r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar y mater hwn yn gynnar yng ngwanwyn 2017.
- Gofynnwyd am sicrwydd ynglŷn â’r eitemau a farciwyd yn ‘goch’ i gael eu gwella a sut y byddai hynny’n cael ei gyflawni.
- Cyfradd y bobl hŷn (65 oed a throsodd) sy’n cael cefnogaeth yn y gymuned fesul 1,000 o’r boblogaeth ac sy’n 65 oed a throsodd ar 31 Mawrth – parhaodd perfformiad yn y chwartel isaf. Nid oedd y dangosydd hwn yn ystyried uchelgais Sir Ddinbych i ddiwallu anghenion pobl drwy ail-alluogi a gwasanaethau cymunedol, yn hytrach na gofal a reolir. Dylai perfformiad da fod yn isel yn y dangosydd hwn. Felly, roedd perfformiad Sir Ddinbych wedi gwella mewn perthynas â’n huchelgais ni ac uchelgais Cymru i leihau cefnogaeth ffurfiol i unigolion a dylai, felly, gael ei ystyried yn y chwartel uchaf.
- Cyflwr y ffyrdd yn Sir Ddinbych – cadarnhawyd bod pob Grŵp Ardal Aelodau wedi cael cyfle i fwydo gwybodaeth i system Rheoli'r Rhwydwaith ond, yn anffodus, roedd cyfyngiadau ariannol a olygai na ellid cadw pob ffordd mewn cyflwr “rhagorol”.
- Cymunedau yn Gyntaf – Byddai datganiad gan Lywodraeth Cymru y diwrnod ar ôl cyfarfod y Cyngor yn cyhoeddi’r setliad ariannol. Wedi hynny, byddai gwaith i geisio cael eglurhad ynglŷn â Chymunedau yn Gyntaf.

Diolchodd yr Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant am y gwaith a wnaed gan yr Adran Oedolion a Phlant wrth ymdrechu’n barhaus i wella gwaith diogelu.

Datganodd yr Arweinydd ei ddiolch i’r Aelod Arweiniol dros Gyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad am gyflwyno’r adroddiad. Dywedodd ei bod yn hanfodol bod Cynllun Corfforaethol cadarn ar waith.

Bu i’r Arweinydd hefyd longyfarch pawb yn y Cyngor am fod yn un o'r cynghorau a oedd yn perfformio orau trwy Gymru.

***PENDERFYNWYD**, yn amodol ar unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt, bod yr Aelodau'n cymeradwyo Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft 2015/16 er mwyn gallu ei gyfieithu a'i gyhoeddi cyn 31 Hydref 2016.*

**Ar y pwynt hwn (11.35 am) cafwyd egwyl o 20 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.55 a.m.**

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Jason McLellan Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16.

Roedd gofyn statudol i'r Cyngor, dan ddarpariaethau Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011, fod â Phwyllgor Archwilio. Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol oedd pwyllgor dynodedig y Cyngor ar gyfer y diben hwn.

Roedd y prif feysydd gwaith y mae'r Pwyllgor yn eu goruchwylio fel a ganlyn:

- Rôl archwilio mewn perthynas â chanlyniadau o adroddiadau archwilio mewnol ac ystyried canfyddiadau ac argymhellion archwiliadau allanol.
- Adolygu a chymeradwyo'r strategaeth archwilio mewnol.
- Rheoli Risgiau.
- Rheolaeth Ariannol
- Archwilio ac argymell polisi i'r Cyngor a'r Cabinet ar feysydd fel twyll, llygredigaeth a rhannu pryderon.
- Rheoli Gwybodaeth, ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data.
- Monitro ac adolygu gweithdrefnau gweithredu cyfansoddiad y Cyngor.
- Monitro a diweddaru'r Cynllun Gwella Llywodraethu.
- Adolygu cwynion a pholisi cwynion ac ystyried adborth Cwsmeriaid.
- Adolygu gweithrediad gweithdrefnau Rhannu Pryderon y Cyngor.

Diolchodd y Cynghorydd Jason McLellan i holl Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, ynghyd â'r Aelod Lleyg, Paul Whitham, Aelodau Arweiniol a oedd yn dod i gyfarfodydd, yn enwedig y Cynghorydd Julian Thompson-Hill a oedd yn bresennol yn y nifer fwyaf o gyfarfodydd, Swyddogion a chynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru am eu holl waith caled dros y flwyddyn ddiwethaf.

***PENDERFYNWYD** bod yr Aelodau'n nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.*

**8 CRYFHAU A GWELLA ARCHWILIO YN SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yr adroddiad Archwilio (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i roi diweddariad i'r Cyngor ar gynnydd a wnaed hyd

yma o ran rhoi'r Cynllun Gweithredu ar Wella Archwilio ar waith, a chanfyddiadau allweddol yr ymarfer hunanwerthuso archwilio diweddar.

Cafwyd cyflwyniad gan y Cydlynydd Archwilio, ac eglurodd bod Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio (GCIGA), yn dilyn cyhoeddi Astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ar Wella Archwilio mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru "Craffu Da? Cwestiwn Da!" ym mis Mai 2014, wedi cytuno ar Gynllun Gweithredu ar Wella Archwilio, gyda'r nod o ddatblygu archwilio yn Sir Ddinbych.

Roedd yr astudiaeth genedlaethol yn nodi y dylai awdurdodau lleol ledled Cymru hunanwerthuso archwilio'n rheolaidd gan ddefnyddio canlyniadau a nodweddion trosolwg ac archwilio effeithiol llywodraeth leol.

Cytunwyd ar set o ganlyniadau a nodweddion cenedlaethol ar gyfer archwilio'n effeithiol. Byddent yn canolbwyntio ar:

- Well canlyniadau
- Gwell penderfyniadau, ac
- Ymgysylltu'n well.

Yn dilyn yr ymarfer hunanwerthuso, y prif gasgliadau o ddadansoddi'r ymatebion oedd:

Cryfderau:

- Mae Aelodau a Swyddogion yn teimlo bod rôl glir a gwerthfawr gan archwilio yng ngwaith llywodraethu'r Cyngor
- Bod archwilio'n gyffredinol yn gweithredu ar sail anwleidyddol ac yn cael ei arwain gan gynghorwyrRoedd presenoldeb Aelodau'r Cabinet yn y pwyllgor Archwilio'n gweithio'n dda
- Yn gyffredinol, roedd aelodau'r pwyllgor craffu a swyddogion mewnol/allanol sy'n dod i gyfarfodydd archwilio'n ymddiried yn ei gilydd ar lefel uchel

Meysydd a nodwyd i'w gwella:

- Mwy o hyfforddiant ar sgiliau sy'n benodol ar gyfer archwilio
- Presenoldeb yr Aelodau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor
- Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd gan annog presenoldeb gyhoeddus
- Edrych ar botensial gweddarlledu cyfarfodydd y pwyllgor archwilio.

Roedd angen gwella:

- Presenoldeb yr Aelodau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor, a
- Chyfathrebu ac ymgysylltu â'r Cyngor, gan annog presenoldeb gyhoeddus.

Gallai Cynghorwyr ofyn i eitemau gael eu rhoi ger bron y Pwyllgor Archwilio trwy gwblhau "Ffurflen Cynigion  Aelodau" a'i chyflwyno i GCIGA.

Gallai'r cyhoedd ofyn i eitemau gael eu rhoi ger bron y Pwyllgor Archwilio trwy gwblhau "Ffurflen Gofyn am Archwilio".

Roedd GCIGA yn ystyried pob cais ac, os byddai'n llwyddo mewn prawf cyn archwilio, byddai GCIGA yna'n penderfynu sut i archwilio'r mater yn fanwl.

Dyma oedd y prawf:

- Lles y Cyhoedd – a oedd yn fater pryder i drigolion?
- Gallu i gael effaith – a fyddai Archwilio’n gallu dylanwadu ar bethau a’u newid?
- Perfformiad – a oedd yn faes neu'n wasanaeth a oedd yn tangyflawni?
- Graddau – a oedd yn effeithio ar nifer fawr o drigolion neu ardal ddaearyddol fawr?
- Dyblygu – a oedd unrhyw un arall yn edrych arno?

Os nad oedd y cais yn pasio’r prawf, gallai’r GCIGA:

- Ei atgyfeirio e.e. Grŵp Ardal Aelodau
- Gofyn am adroddiad gwybodaeth i bennu a oedd angen mwy o waith, a chan bwy
- Ymateb gyda rheswm/rhesymau pam nad oedd gwaith i fynd i'r afael â'r mater.

Wrth drafod, codwyd mater mewn perthynas â Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru, ac fe gytunodd i atgyfeirio at Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio.

***PENDERFYNWYD*** *bod Aelodau’r Cyngor yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

**9 RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL Y CYNGOR SIR**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd yn flaenorol).

Atgoffwyd Aelodau y byddai Gweithdai Cyllid yn cael eu cynnal ar 1 Tachwedd ac 18 Tachwedd.

***PENDERFYNWYD****, yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.00 pm.**

**Adroddiad i'r:** Cyngor Llawn

**Dyddiad y Cyfarfod:** 6 Rhagfyr 2016

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Cyng. Huw Jones – Aelod Arweiniol Datblygu Cymunedol
Nicola Stubbins Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau

**Awdur yr Adroddiad:** Emlyn Gwynedd Jones (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd)

**Teitl:** **Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg**

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud â sefydlu Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg ffurfiol.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Y rheswm dros lunio'r adroddiad hwn yw er mwyn dod i benderfyniad am sefydlu Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg ffurfiol o fewn cyfansoddiad y Cyngor.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Yr argymhellion yw bod y Cyngor yn:

- Mabwysiadu Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg a chymeradwyo ei ychwanegiad at brif strwythur pwyllgor y Cyngor.
- Cadarnhau cwmpas/ cylch gwaith Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg.

**4. Manylion yr adroddiad**

4.1 Mae Safonau'r Iaith Gymraeg wedi'u rhoi i'r Awdurdod gan Gomisiynydd y Gymraeg. Daeth y mwyafrif o'r safonau i rym ar 1 Ebrill 2016. Fe ddaeth nifer llai o safonau yn ymwneud â datblygu polisi i rym ar 1 Hydref 2016.

4.2 Mae Aelodau, Uwch Reolwyr a staff yn croesawu'r safonau iaith Gymraeg newydd. Mae Sir Ddinbych yn sir ddwyieithog yn bennaf â diwylliant a threftadaeth gyfoethog. Rydym yn falch iawn o'r ffaith hon ac eisiau'r balchder hyn gael ei adlewyrchu yn ein rhyngweithiad o ddydd i ddydd gyda chymunedau, preswylwyr ac ein staff.

4.3 Mae Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg eisoes yn bodoli o fewn y Cyngor. Caiff ei gadeirio gan Aelod Arweiniol Datblygu Cymunedol a'i ffurfio gan xxx o Aelodau â chynrychiolaeth swyddog drwy Gyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd ac Arweinydd Tîm Cyfathrebu. Gweler y cylch gorchwyl cyfredol ar gyfer y Grŵp ynghlwm fel Atodiad A.

4.4 Mae Aelodau Grŵp Llywio’r Iaith Gymraeg wedi trafod newid y grŵp o’i ffurf cyfredol mewnol i bwyllgor cyhoeddus. Roedd Aelodau’r grŵp o blaid y canlynol:

- Y byddai’r pwyllgor yn bwyllgor ffurfiol â chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn gyhoeddus a chyhoeddi dogfennau’r rhaglen ar wefan y Cyngor.
- Yn debyg i brif bwyllgorau eraill byddai 11 Aelod ac yn gytbwys o ran gwleidyddiaeth.
- Y byddai’n bwyllgor ymgynghorol a allai gynnwys Cynghorwyr gweithredol (Cabinet) a Chynghorwyr anweithredol.

4.5 Mae’r cylch gorchwyl presennol ar gyfer Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg wedi’i addasu gan swyddogion o fewn y Gwasanaethau Democrataidd, gweler Atodiad B ynghlwm â’r adroddiad hwn. Cynigir mai dyma fydd y cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Llywio’r Iaith Gymraeg newydd.

4.6 Byddai Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg yn ceisio cyd-drefnu cymorth gwleidyddol a chymorth gan swyddogion â darpariaeth a gweithrediad Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor a monitro cynnydd â gweithrediad Safonau’r Iaith Gymraeg. Bydd hefyd o gymorth i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fod yn agos at y gymuned a darparu’r statws gofynnol sydd ynghlwm â phwyllgor ffurfiol. Mae hyn yn unol â gweledigaeth y Cyngor ar gyfer yr Iaith Gymraeg.

4.7 Byddai’r gefnogaeth bwyllgor a ddarperir i bwyllgorau eraill yn cael ei darparu i’r Pwyllgor Llywio’r Iaith Gymraeg newydd.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae’r Cyngor wedi blaenoriaethu'r Iaith Gymraeg ac wedi croesawu Safonau'r Iaith Gymraeg. Bydd y penderfyniad hwn o gymorth i sicrhau bod y Cyngor â strwythur yn ei le i fonitro a llywodraethu datblygiad yr Iaith Gymraeg o fewn y Cyngor.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Caiff hyn ei gynnwys o fewn yr adnoddau presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?**

7.1 Gweler yr asesiad ynghlwm i’r adroddiad.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

8.1 Bu ymgynghoriad â Phwyllgor Llywio’r Iaith Gymraeg, Aelod Arweiniol Datblygu Cymunedol y Tîm Gweithredol Corfforaethol a’r Cabinet.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Dylai’r gost o sefydlu'r pwyllgor llywio gael ei gynnwys o fewn yr adnoddau presennol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Y risg o beidio rhoi’r newid hwn ar waith yw na fydd y strwythur angenrheidiol yn ei le i sicrhau darpariaeth a gweithrediad Strategaeth yr Iaith Gymraeg a Safonau’r Iaith Gymraeg.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

11.1 Adrannau 101 a 102 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Drafft Cylch Gorchwyl – Grŵp Llywio’r Iaith Gymraeg Sir Ddinbych**

**Pwrpas y Grŵp**

- Darparu cymorth gwleidyddol/ swyddog i ddarpariaeth a gweithrediad y Strategaeth Iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych.

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:**

- Cynorthwyo’r Cyngor â datblygiad Strategaeth Iaith Gymraeg ar gyfer Sir Ddinbych.
- Monitro cynnydd wrth weithredu Safonau’r Iaith Gymraeg.
- Cytuno ar adroddiad blynyddol ar gynnydd y Safonau i Gomisiynydd y Gymraeg.
- Cynorthwyo i gwmpasu a blaenoriaethu argymhellion yr Archwiliad i mewn i Gynllun Gweithredu a gaiff yna ei ddatblygu a'i fonitro.
- Gwneud awgrymiadau i’r Cabinet a/ neu’r Cyngor pan fo’n briodol.
- Cefnogi’r Iaith Gymraeg a’i datblygiad yn Sir Ddinbych.
- Ehangu a hyrwyddo diwylliant dwyieithog o fewn y sefydliad.
- Monitro cynnydd materion corfforaethol eraill yn ymwneud â’r Iaith Gymraeg. E.e. gwasanaeth cyfieithu, hyfforddiant Cymraeg, mentora.
- Chwarae rhan weithredol yn natblygiad meysydd o waith allweddol eraill yn ymwneud â’r Iaith Gymraeg – fframwaith Mwy Na Geiriau (Iechyd a Gofal Cymdeithasol), Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg, Cynllun Datblygu Lleol.
- Chwarae rhan ragweithiol mewn fforymau ledled y sir, megis y Fforwm Iaith Gymraeg Sirol, Menter Iaith Sir Ddinbych.
- Mae disgwyl i Aelodau adrodd yn ôl i’w grwpiau gwleidyddol yn dilyn y cyfarfodydd.

**Aelodaeth o’r Grŵp:**

Bydd rhaid i’r Grŵp benodi Cadeirydd ac Is- Gadeirydd. Bydd y Grŵp yn cynnwys:

- Aelod Cabinet Arweiniol sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg.
- Cynrychiolwyr o bob grŵp gwleidyddol.
- Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
- Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (â chyfrifoldebau strategol dros yr Iaith Gymraeg)
- Arweinydd Tîm - Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd
- Cynrychiolwyr o Addysg a’r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cedwir yr hawl gan y Grŵp i wahodd swyddogion/ Aelodau ychwanegol pan fo’n briodol.

**Rheoleidd-dra'r cyfarfodydd:**

Cynhelir y cyfarfodydd bob chwarter yn Neuadd y Sir, Rhuthun.

Bydd cofnodion yn cael eu cynhyrchu o bob cyfarfod grŵp llywio.

Bydd papurau ar gael wythnos cyn y cyfarfod.

# Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg

# Cylch Gorchwyl

## 1 Rôl a Swyddogaeth

1.1 Cyd-drefnu cymorth gwleidyddol/ cymorth gan swyddog â darpariaeth a gweithrediad Strategaeth Iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych. Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Cyngor i fod yn bresennol ger ei fron i ateb cwestiynau a gwahodd personau eraill i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor hwn.

1.2 Bydd y Pwyllgor yn:

- Cynorthwyo'r Cyngor â datblygiad Strategaeth Iaith Gymraeg ar gyfer Sir Ddinbych.
- Monitro cynnydd wrth weithredu Safonau'r Iaith Gymraeg.
- Cytuno ar adroddiad blynyddol ar gynnydd y Safonau i Gomisiynydd y Gymraeg.
- Cynorthwyo i gwmpasu a blaenoriaethu argymhellion yr Archwiliad i mewn i Gynllun Gweithredu a gaiff yna ei ddatblygu a'i fonitro.
- Gwneud argymhellion i'r Cabinet a/ neu'r Cyngor pan fo'n briodol.
- Cefnogi'r Iaith Gymraeg a'i datblygiad yn Sir Ddinbych.
- Ehangu a hyrwyddo diwylliant dwyieithog o fewn y sefydliad.
- Monitro cynnydd materion corfforaethol eraill yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg. E.e. gwasanaeth cyfieithu, hyfforddiant Cymraeg, mentora.
- Chwarae rhan weithredol yn natblygiad meysydd allweddol eraill o waith yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg – fframwaith Mwy Na Geiriau (Iechyd a Gofal Cymdeithasol), Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg, Cynllun Datblygu Lleol.
- Chwarae rhan ragweithiol mewn fforymau ledled y sir, megis y Fforwm Iaith Gymraeg Sirol, Menter Iaith Sir Ddinbych.

1.3 Yn ogystal bydd disgwyl i aelodau'r Pwyllgor adrodd yn ôl i'w grwpiau gwleidyddol ar fusnes y Pwyllgor.

1.4 Mae'r Pwyllgor yn bwyllgor ymgynghorol ac nid oes ganddo bwerau dirprwyol i wneud penderfyniadau oni bai am rai meysydd o'i drafodion ei hun e.e. penodi cadeirydd, cadarnhau cofnodion a.y.b.

## 2 Hawl i Wybodaeth

2.1 Bydd rhaglenni, cofnodion ac adroddiadau'r Pwyllgor ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor, oni bai eu bod yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eu bod yn eithriad rhag cyhoeddi o dan ofynion Rhan 4 (Atodlen 12A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Bydd cyfarfodydd y Pwyllgor ar agor i'r cyhoedd oni bai am drafodaethau ar eitemau wedi'u heithrio neu lle bo'n debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu.

2.2 Bydd y Pwyllgor yn rhoi Adran 14 o gyfansoddiad y Cyngor– Rheolau Gweithdrefn Hawl i Wybodaeth – ar waith.

## 3 Rheolau Gweithdrefnau (Rheolau Sefydlog)

3.1 Bydd Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor (adran 4.33 o gyfansoddiad y Cyngor 'Cais i bwyllgorau ac is-bwyllgorau') yn berthnasol i drafodaethau'r Pwyllgor. Mae'r rhain yn cynnwys rheolau ar gworwm y Pwyllgor, trefniadau pleidleisio a rheolau trafodaethau.

## 4 Aelodaeth

4.1 Bydd aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys 11 cynghorwr gan gynnwys, lle bo'n bosib, aelod Cabinet arweiniol â chyfrifoldeb dros faterion Iaith Gymraeg. Bydd y Pwyllgor yn wleidyddol gytbwys â sedd yr aelod Cabinet arweiniol yn cyfri tuag at gyfrifiadau'r cydbwysedd gwleidyddol.

4.2 Bydd aelodaeth y Pwyllgor ar agor i gynghorwyr gweithredol a chynghorwyr anweithredol.

## 5 Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd

5.1 Bydd y Pwyllgor yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd o'i aelodaeth i wasanaethu am flwyddyn. Bydd y penodiadau'n cael eu gwneud yn ystod cyfarfod cyntaf y Pwyllgor, yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor bob blwyddyn, neu pan fo sedd wag yn codi.

5.2 Ni fydd Cadeirydd y Pwyllgor â'r hawl i dderbyn cyflog uwch.

## 6 Cyfarfodydd

Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor dair gwaith y flwyddyn oni bai nad oes digon o fusnes sy'n galw am gyfarfod. Gall y Pwyllgor gynnal cyfarfodydd arbennig pan fo'n briodol.

## 7 Presenoldeb Cynghorwyr nad ydynt yn Aelodau o'r Pwyllgor

7.1 Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd fel sylwedyddion ac eithrio tra ystyrir unrhyw fater lle byddai'n rhaid i'r aelod ddatgan cysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu.

7.2 Nid oes unrhyw hawl awtomatig i sylwedyddion siarad ar unrhyw fater. Mae'r hawl i rywun nad yw'n aelod o'r pwyllgor siarad yn ôl doethineb cadeirydd y cyfarfod yn unig.

## 8 Cymorth Swyddogion a Gweinyddol

8.1 Bydd y Pwyllgor yn derbyn cymorth gan y swyddogion canlynol neu eu holynwyr cyfwerth:

- Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
- Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (â chyfrifoldebau strategol dros yr Iaith Gymraeg)
- Arweinydd Tîm - Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd
- Cynrychiolwyr o wasanaethau'n cefnogi Strategaeth Iaith Gymraeg.

Mae'r rhestr uchod yn fynegol a gellir ei diwygio neu ychwanegu ati unrhyw adeg i gefnogi gwaith y Pwyllgor.

Bydd gweinyddiaeth ac ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Pwyllgor, gan gynnwys hysbysiad o gyfarfodydd, galw am adroddiadau, rhaglen gwaith i'r dyfodol, rhaglenni a chofnodion, yn cael eu gwneud gan Dîm Gwasanaethau Democrataidd (neu'r tîm olynol cyfatebol).

# Welsh Language Steering Committee

## Wellbeing Impact Assessment Report

This report summarises the likely impact of a proposal on the social, economic, environmental and cultural well-being of Denbighshire, Wales and the world.

| | |
|---|---|
| Assessment Number: | 103 |
| Brief description: | Introducing a new Welsh Language Steering Committee into the Council's committee structure |
| Date Completed: | 08/11/2016 10:32:30 Version: 1 |
| Completed By: | Emlyn Jones |
| Responsible Service: | Legal, HR & Democratic Services |
| Localities affected by the proposal: | Whole County, |

# IMPACT ASSESSMENT SUMMARY AND CONCLUSION

Before we look in detail at the contribution and impact of the proposal, it is important to consider how the proposal is applying the sustainable development principle. This means that we must act "in a manner which seeks to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs."

**Score for the sustainability of the approach**


Could you do more to make your approach more sustainable?

(2 out of 4 stars)

Actual score: 10/ 24.

**Summary of impact**

Wellbeing Goals




| | |
|---|---|
| A prosperous Denbighshire | Neutral |
| A resilient Denbighshire | Neutral |
| A healthier Denbighshire | Neutral |
| A more equal Denbighshire | Neutral |
| A Denbighshire of cohesive communities | Neutral |
| A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language | Positive |
| A globally responsible Denbighshire | Neutral |

**Main conclusions**

The main conclusions are that this specific proposal is very limited and specific. It will have only positive impacts on the welsh language.

## THE LIKELY IMPACT ON DENBIGHSHIRE, WALES AND THE WORLD

**A prosperous Denbighshire**

| | |
|---|---|
| Overall Impact: | Neutral |
| Justification for Impact: | The decision to agree on a new Welsh Language Committee is unrelated to the above. |

**Positive consequences identified:**

**Unintended negative consequences identified:**

**Mitigating actions:**

## A resilient Denbighshire

| | |
|---|---|
| Overall Impact: | Neutral |
| Justification for Impact: | As previous |

**Positive consequences identified:**

**Unintended negative consequences identified:**

**Mitigating actions:**

## A healthier Denbighshire

| | |
|---|---|
| Overall Impact: | Neutral |
| Justification for Impact: | as previous |

**Positive consequences identified:**

**Unintended negative consequences identified:**

**Mitigating actions:**

## A more equal Denbighshire

| | |
|---|---|
| Overall Impact: | Neutral |
| Justification for Impact: | as previous |

**Positive consequences identified:**

**Unintended negative consequences identified:**

**Mitigating actions:**

## A Denbighshire of cohesive communities

| | |
|---|---|
| Overall Impact: | Neutral |
| Justification for Impact: | as previous |

**Positive consequences identified:**

**Unintended negative consequences identified:**

**Mitigating actions:**

## A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language

| | |
|---|---|
| Overall Impact: | Positive |
| Justification for Impact: | As above |

**Positive consequences identified:**

Greater status to the language within the council and subsequently externally. Governance and monitoring of the welsh language strategy and standards.
As above
As above

**Unintended negative consequences identified:**

**Mitigating actions:**

## A globally responsible Denbighshire

| | |
|---|---|
| Overall Impact: | Neutral |
| Justification for Impact: | as previous |

**Positive consequences identified:**

**Unintended negative consequences identified:**

**Mitigating actions:**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR

| Cyfarfod | Eitem (Disgrifiad / Teitl) | | Pwrpas yr Adroddiad | Angen penderfyniad gan y Cyngor (oes/nac oes) | Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt |
|---|---|---|---|---|---|
| **31 Ionawr 2017** | 1 | Cymeradwyo Cyllideb y Cyngor | Cytuno ar gyllideb y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18. | Oes | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill/Richard Weigh |
| | 2 | Cymeradwyo Canolfan Ddyfrol y Rhyl | Rhoi gwybod i'r Cyngor am gynlluniau Canolfan Ddyfrol y Rhyl a chael cymeradwyaeth Aelodau | Oes | Y Cynghorydd Hugh Irving (yn cynrychioli'r Cynghorydd Huw L Jones) / Jamie Groves |
| | | | | | |
| **14 Chwefror 2017** | 1 | Gosod Treth y Cyngor | Gosod lefelau Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18. | Oes | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill/Richard Weigh |
| | 2 | Adolygiad blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol ac Amserlen y Pwyllgorau yn 2018 | I adolygu cydbwysedd gwleidyddol pwyllgorau'r Cyngor (gall hyn newid wedi etholiadau Mai 2017) a chadarnhau amserlen y pwyllgorau 2018. | Oes | Y Cynghorydd Barbara Smith / Steve Price |
| | | | | | |
| **BRIFFIO'R CYNGOR 6 Mawrth 2017** | 1 | Hyfforddiant Aelodau a Strategaeth Ddatblygu | I ystyried a rhoi sylwadau ar y rhaglen ar gyfer hyfforddi a datblygu ar gyfer 2017 ymlaen | Amh | Y Cynghorydd Barbara Smith / Steve Price |
| | | | | | |
| **4 Ebrill 2017** | 1 | Tâl Aelodau | Ystyried a mabwysiadu penderfyniadau Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol | Oes | Y Cynghorydd Barbara Smith / Gary Williams / Steve Price |
| | | | | | |
| **23 Mai 2017 Cyfarfod** | 1 | Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor | Penodi i'r swyddi hyn ar gyfer blwyddyn y cyngor 2017/18. | Oes | Gary Williams / Eleri Woolford / Steve Price |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blynyddol** | | | | | |
| | 2 | Ethol Arweinydd y Cyngor | Ethol Arweinydd y Cyngor | Oes | Gary Williams |
| | 3 | Adolygiad o Gydbwysedd Gwleidyddol | Adolygiad blynyddol statudol o'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol | Oes | Gary Williams / Steve Price |
| | | | | | |
| **BRIFFIO'R CYNGOR 12 Mehefin 2017** | | | | | |
| | | | | | |
| **4 Gorffennaf 2017** | | | | | |
| | | | | | |
| **5 Medi 2017** | | | | | |
| | | | | | |
| **17 Hydref 2017** | | | | | |
| | | | | | |
| **BRIFFIO'R CYNGOR 13 Tachwedd 2017** | | | | | |
| | | | | | |
| **5 Rhagfyr 2017** | | | | | |
| | | | | | |

***Nodyn i Swyddogion - Dyddiadau Cau Adroddiadau i'r Cyngor Llawn***

| *Cyfarfod* | ***Dyddiad cau*** | *Cyfarfod* | ***Dyddiad cau*** | *Cyfarfod* | ***Dyddiad cau*** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | *Rhagfyr 2016* | ***22 Tachwedd 2016*** |
| *Ionawr 2017* | ***17 Ionawr 2017*** | *Chwefror 2017* | ***31 Ionawr 2017*** | *Ebrill 2017* | ***21 Mawrth 2017*** |
| *Mai 2017* | ***9 Mai 2017*** | *Gorffennaf 2017* | ***20 Mehefin 2017*** | *Medi 2017* | ***22 Awst 2017*** |
| *Hydref 2017* | ***3 Hydref 2017*** | *Rhagfyr 2017* | ***21 Tachwedd*** | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ***2017*** | | |

Diweddarwyd 17/11/2016 SP

Rhaglen Waith y Cyngor.doc

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag